# Y Rôl

Dyma gyfle cyffrous i ddechrau gyrfa ym maes caffael gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn eich gwaith fel Prentis Caffael, cewch brofiad ymarferol gwerthfawr ynghyd â hyfforddiant ffurfiol, gan ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut mae caffael yn cefnogi'r gwasanaethau brys ar y rheng flaen. Dyma swydd sydd wedi'i dylunio i roi cyfrifoldeb gwirioneddol i chi o'r cychwyn cyntaf, ac sy'n caniatáu i chi wneud cyfraniadau ystyrlon wrth i chi weithio tuag at ennill cymhwyster y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) – safon caffael a rheoli cadwyni cyflenwi sy'n cael ei barchu ar draws y byd.

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig ac uchelgeisiol sy'n awyddus i ddysgu ac i gyfrannu at amgylchedd tîm cydweithredol. Dylech allu rhoi sylw i fanylion, gallu dilyn gweithdrefnau, a bod yn hyderus wrth weithio gyda data, gyda chyflenwyr, a chyda chydweithwyr ar draws y sefydliad. Yn anad dim, dylech fod yn frwd dros gael gyrfa broffesiynol ym maes caffael a chyflenwi, a thros wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'ch cymuned.

Lleoliad y swydd yw ein Pencadlys ym Mharc Busnes Llanelwy, ond rydym hefyd yn cynnig y gallu i ymgymryd â gweithio hyblyg, lle gallwch weithio o gartref, yn amodol ar argaeledd, yn ogystal â bod ar gael i weithio o leoliadau eraill Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweliad.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Prentis Caffael (gan arwain at Gynorthwyydd Caffael) |
| **Adran** | Cyllid a Chaffael |
| **Atebol i** | Rheolwr Caffael a Chontractau |
| **Graddfa Cyflog** | GTAGC 3 (gyda llwybr i GTAGC 5 ar ôl cwblhau'r Llwybr Masnach, Caffael, a Chyflenwi) |
| **Lleoliad** | Pencadlys, Llanelwy |
| **Oriau'r Wythnos** | 37 |

## Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Mae'r rôl yn llwybr datblygu i ddod yn Gynorthwyydd Caffael o fewn GTAGC. Mae'r llwybr i hyn fel a ganlyn:

| Gradd Cyflog | Gofynion | Amserlenni | Datblygu Llwybrau |
|---|---|---|---|
| Gradd 3 | Mynediad i'r rôl | Dechrau'r daith ddatblygu (24 mis) | Ymgymryd â phrentisiaeth Lefel 3 mewn Caffael Masnachol a'r Gadwyn Gyflenwi gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Hyfforddiant yn y swydd ac amlygiad i Gaffael a rheoli contractau cyflenwyr, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weinyddu caffael cychwynnol, ysgrifennu tendrau, trafodaethau contractau, cyfathrebu mewnol ac allanol, fel yr amlinellir yn y dyletswyddau ar gyfer y rôl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gradd 5 | Cwblhau'r brentisiaeth Lefel 3 yn llwyddiannus mewn Caffael Masnachol a'r Gadwyn Gyflenwi.<br><br>Dangos cymhwysedd yng ngofon rôl y Prentis Caffael. | Parhau mewn rôl barhaol | Dangos cymhwysedd mewn dyletswyddau JD ar lefel Prentisiaeth a'r gallu i ymgymryd â thasgau a dyletswyddau fel y'u nodwyd ar gyfer rôl y Cynorthwyydd Caffael.<br><br>Er mwyn cadarnhau dilyniant i rôl Cynorthwyydd Caffael, adolygiad o berfformiad a thrafodaeth broffesiynol i'w gynnal. |

Cefnogi prosesau caffael allweddol, gan gynnwys rheoli contractau, cyfathrebu cyflenwyr, mewnbynnu data a gweinyddu. Wrth i brofiad a gwybodaeth dyfu, bydd y rôl yn datblygu o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau, gan symud yn raddol i gefnogi tasgau caffael mwy cymhleth ac effeithiol, megis ysgrifennu tendrau, trafodaethau contract, cyfathrebu mewnol ac allanol.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Cefnogi'r Rheolwr Caffael a Chytundebau gydag ystod o weithgareddau caffael o ddydd i ddydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu'n effeithiol.

2. Cadw cofnodion cywir trwy gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro a diweddaru data caffael, gan gynnwys cofrestrau contractau, llinellau caffael, a logiau perfformiad.

3. Cynorthwyo'r gwaith o baratoi, cyhoeddi a monitro dogfennau Gwahoddiad i Dendro (ITT), gan gynnwys cydlynu ymholiadau cyflenwyr a sicrhau ymatebion prydlon gan yr adrannau perthnasol.

4. Olrhain a chofnodi cyflwyniadau gan gyflenwyr sy'n ymwneud â chynlluniau datgarboneiddio ac adroddiadau cynaliadwyedd, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u diweddaru ar y cofrestrau perthnasol.

5. Cofnodi data gwariant cyflenwyr a gwariant byw yn erbyn contractau a chodi unrhyw wariant gor/tan-wariant gyda'r Rheolwr Caffael a Chontractau.

6. Helpu i drefnu sesiynau hyfforddi sy'n gysylltiedig â chaffael i staff mewnol, gan sicrhau bod adnoddau dysgu a chofnodion presenoldeb ar gael ar gyfer y sesiynau.

7. Mynd i gyfarfodydd sy'n gysylltiedig â chaffael a darparu cymorth gweinyddol pan fo angen, gan gynnwys cofnodi camau gweithredu, penderfyniadau, a chanlyniadau allweddol.

8. Gwneud gwaith ymchwil i nwyddau a gwasanaethau er mwyn cefnogi anghenion defnyddwyr, gan gynnwys dod o hyd i ddarpar gyflenwyr a chasglu gwybodaeth am gynnyrch/gwasanaeth.
9. Cyfrannu gyda chefnogaeth at y gwaith o nodi llwybrau caffael priodol, gan gynnwys y defnydd o fframweithiau sector cyhoeddus a'u haddasrwydd.
10. Dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn i gefnogi gweithrediad effeithiol y swyddogaeth Caffael o fewn tîm bychan, deinamig.
11. Cynorthwyo gyda phrosesau cynefino cyflenwyr, gan sicrhau bod dogfennaeth yn cael ei derbyn, ei gwirio a'i storio'n briodol ac yn unol â gofynion diogelu data.
12. Dadansoddi data gwariant cyflenwyr a chynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro gwariant byw yn erbyn contractau, gan nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefn Contract (CPR) y sefydliad.
13. Cydlynu a chefnogi cyflwyno sesiynau hyfforddi sy'n gysylltiedig â chaffael i staff mewnol, gan sicrhau bod adnoddau dysgu a chofnodion presenoldeb yn cael eu paratoi a'u rheoli'n dda.
14. Cynorthwyo i werthuso gallu ac addasrwydd cyflenwyr fel rhan o brosesau asesu cyn-gymhwyso a dendro.
15. Cyfrannu at nodi llwybrau caffael priodol, gan gynnwys defnyddio ac addasrwydd fframweithiau'r sector cyhoeddus.
16. Cefnogi cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael y sector cyhoeddus drwy helpu i sicrhau bod gweithdrefnau'n dilyn polisi Cyfraith Gaffael y DU a pholisi y Gwasanaeth Tân ac Achub
17. Cyfrannu at fonitro gwerth cymdeithasol, gan gefnogi ymdrechion i gofnodi ac adrodd ar effeithiau cymunedol, amgylcheddol a moesegol o gontractau cyflenwyr.
18. Cynorthwyo i ddrafftio adroddiadau caffael neu ddangosfyrddau syml, gan helpu i gyfathrebu metrigau allweddol fel cydymffurfiaeth contractau, arbedion a pherfformiad.
19. Cefnogi'r gwaith rheoli ôl-gontract, gan helpu i olrhain Dangosyddion Perfformiad Allweddol, cerrig milltir cyflawni, a chyfarfodydd adolygu perfformiad gyda chyflenwyr.

